Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa: Plant yn y Ddalfa

22 Hydref 2025

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
**Ysgrifennwyd gan: Tom Walters**

# Cynnwys

Cyflwyniad .... 2
Crynodeb o'r canfyddiadau .... 5
Sylwadau'r panel .... 8
Atodiad – Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion y Ddalfa .... 27
Demograffeg .... 27
Dalfeydd .... 28
Amser cyrraedd y ddalfa .... 28
Darpariaethau yn y ddalfa .... 30
Unigolion benywaidd a gadwyd yn y ddalfa .... 32
Hylendid .... 33
Hawliau a hawlogaethau .... 35
Lefel arsylwi .... 38
Gwasanaethau cymorth .... 40
Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol .... 41
Dillad risg arbennig / ystafelloedd gwrth-rwygo .... 42
Defnyddio grym .... 43
Noeth-chwiliad .... 44
Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd .... 45
Plant yn y Ddalfa .... 46
Coch Melyn Gwyrdd .... 48

# Cyflwyniad

Mae tarddiad, diben, a rhesymeg Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa i'w gweld ar ein gwefan o dan y cylch gorchwyl drwy'r ddolen hon: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Ym mis Hydref 2025, bu Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn canolbwyntio ar blant yn y ddalfa. Wrth baratoi ar gyfer y gweithgaredd craffu hwn, atgoffwyd y panel o'r *Crynodeb o Ganfyddiadau* adroddiad y llynedd, y gellir ei weld yma.

O fis Mehefin 2025 ymlaen, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi newid y broses mewn perthynas â phrosesu plant yn y ddalfa. Mae'r broses bellach yn cynnwys:

- Rhingyll rheng flaen gweithredol (heb fod wedi'i leoli yn y ddalfa) i adolygu, gyda'r swyddog arestio, yr angenrheidrwydd i arestio'r plentyn. Y bwriad yw y bydd y rhingyll yn archwilio opsiynau addas eraill yn lle cadw'r plentyn yn y ddalfa.
- Unwaith y bydd cadarnhad bod y plentyn i'w ddwyn i'r ddalfa, cyflwynir cloc 12 awr PACE (Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol) yn benodol ar gyfer plant yn y ddalfa, sy'n cynnwys y canlynol:

1) **Adolygiad cyntaf** rhwng **yr awr gyntaf a'r ail awr** i sicrhau bod y plentyn wedi cael blaenoriaeth yn y ddalfa.
2) Yr **ail adolygiad** (adolygiad **chwe awr PACE**), sydd yn parhau fel arfer.
3) Y **trydydd adolygiad** rhwng **oriau 11 a 12** i sicrhau bod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn gyflym. Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth â'r swyddog ymchwilio, sicrhau bod oedolion priodol wedi'u pennu, ac asesu cynnydd yr ymchwiliad i gyfiawnhau cadw'r plentyn yn y ddalfa.
4) Os penderfynir, yn dilyn y trydydd adolygiad, bod parhau i gadw'r plentyn yn angenrheidiol ac yn gymesur, cynhelir adolygiad PACE ychwanegol ar awr 15 drwy'r broses gofnodi cofnod 'Adolygiad' arferol.

Mae hyn o'i gymharu â sut y mae oedolyn neu blentyn (yn genedlaethol y tu allan i Heddlu Dyfed-Powys) yn cael ei arestio a'i gludo i orsaf heddlu. O dan PACE, gellir dal y plentyn yn y ddalfa am 24 awr heb iddo gael ei gyhuddo. Mae'r cyfnod hwn yn y ddalfa yn cynnwys:

1. Adolygiad cyntaf o fewn chwe awr ar ôl i'r oedolyn fod yn y ddalfa.
2. Mae'r adolygiad nesaf bob naw awr.
3. Ar ôl pob adolygiad, rhaid i'r arolygydd fod yn fodlon bod angen cadw'r unigolyn yn y ddalfa, bod yr amodau cyfreithiol ar gyfer cadw'r unigolyn yno yn dal i gael eu bodloni, a bod lles yr unigolyn yn cael ei gynnal.

Atgoffwyd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa hefyd o ddiben y rhestr wirio plentyn yn y ddalfa. Dogfen 23 cwestiwn yw hon sydd wedi'i chynllunio i ddeall pam y cafodd y plentyn ei arestio, ac i lunio unrhyw fesurau ataliol y gellir eu rhoi ar waith ar ôl iddo gael ei ryddhau, er mwyn sicrhau nad yw'n dychwelyd i'r ddalfa. Isod mae dau brif fanylyn a geir yn y rhestr wirio y bydd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn eu hasesu:

- **Llais y Plentyn** – mae hwn yn offeryn sy'n casglu barn plant yn y ddalfa.
- **Eiliadau Cyraeddadwy** – cyfle pan fo'r plentyn / person ifanc a allai fod wedi gwrthod ymgysylltu o'r blaen yn ceisio cymorth.

Er bod Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa, at ddibenion yr adroddiad hwn, yn asesu cydymffurfedd yr heddlu ag Eiliadau Cyraeddadwy o fewn rhestr wirio plentyn yn y ddalfa, mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mewn cydweithrediad â'r heddlu, yn y broses o gomisiynu gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid allanol i gynorthwyo'r ddalfa i sicrhau bod Eiliadau Cyraeddadwy yn cael eu cofnodi yn y ddalfa yn fwy effeithlon, gan y teimlir bod hyn y tu allan i gylch gwaith y ddalfa ac y byddai gweithiwr cyfiawnder ieuenctid yn arbenigo yn y maes ymgysylltu pwysig hwn. Gobeithir y bydd y gwasanaeth hwn yn dechrau erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Rhoddwyd y cwestiynau ychwanegol hyn i'r panel i'w hystyried yn ystod eu gweithgaredd craffu a oedd yn cynnwys y canlynol:

- A gynhaliwyd adolygiad gan yr arolygydd o fewn dwy awr wedi i'r plentyn gael ei gadw yn y ddalfa?
- A ydyw'r arestiad wedi cael ei adolygu gan y rhingyll (nid rhingyll y ddalfa)?
- A ydyw adolygiad chwe awr PACE wedi'i gwblhau?

- A ydyw trydydd adolygiad yr arolygydd wedi’i gynnal (cloc 12 awr PACE ar gyfer plant)?

I weld y set o gwestiynau y gofynnwyd i’r panel eu hystyried, gallwch glicio yma neu eu gweld drwy’r cod QR:

# Crynodeb o'r canfyddiadau

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau'r panel:

## Pwyntiau cadarnhaol:

**Cyfanswm yr amser yn y ddalfa**

- Yr amser cyfartalog y cadwyd carcharor yn y ddalfa oedd 4 awr a 41 munud sydd, o'i gymharu ag adroddiad y llynedd o 18 awr ac 13 munud, yn welliant dramatig.

**Adolygiadau arolygwyr**

- O ystyried y newidiadau i weithdrefnau plant yn y ddalfa, mae'n gadarnhaol gweld bod adolygiadau arolygwyr wedi cael eu dilyn yn yr hapsamplu hwn.

**Hawliau a hawlogaethau**

- Rhoddwyd pob hawl i blant yn y ddalfa naill ai wrth gofrestru neu yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod yr oeddent yn y ddalfa. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau adroddiadau'r llynedd, sy'n braf i'w weld.

**Defnyddio grym**

- Dim ond mewn un o'r 10 cofnod yn ymwneud â dal unigolyn yn y ddalfa y mae'r defnydd o rym yn ymddangos. O ran y cofnod sengl, penderfynodd aelod Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod hyn yn gymesur gan fod risg y byddai'r plentyn yn y ddalfa yn hunan-niweidio. Defnyddiwyd grym i sicrhau ei fod yn ddiogel. Ni chafodd y plentyn yn y ddalfa na'r staff dan sylw unrhyw anafiadau.

**Noeth-chwiliad**

- Dim ond un plentyn yn y ddalfa a gafodd noeth-chwiliad, a nododd yr aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa a oedd yn adolygu'r cofnod hwn, fod y rhesymeg wedi'i darparu a'i bod yn gymesur er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn.

**Arestiadau angenrheidiol a chymesur**

- Ni chanfu Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa unrhyw dystiolaeth bod unrhyw blentyn wedi'i gadw'n ddiangen yn y ddalfa.

## Meysydd i'w gwella:

**Oedolyn priodol**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd ar gyfer y cyswllt cyntaf rhwng y plentyn yn y ddalfa a'r oedolyn priodol oedd 4 awr ac 16 munud. Mae hyn o'i gymharu ag adroddiad y llynedd a nododd fod yr amser cyfartalog yn 2 awr a 2 funud. Mewn tri achos, ni chanfu Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa unrhyw reswm dros yr oedi.
- Mewn un achos, roedd staff y ddalfa yn betrusgar i gysylltu â'r tîm dyletswydd argyfwng i gynorthwyo plentyn yn y ddalfa yn ystod camau cynnar ei gadw yn y ddalfa.

**Rhestr wirio plentyn yn y ddalfa**

- Nid oedd tri o'r 10 cofnod dalfa a adolygwyd gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn cynnwys rhestr wirio plentyn yn y ddalfa.
- O'r saith cofnod a oedd yn cynnwys rhestr wirio plentyn yn y ddalfa, nid oedd pedwar yn cynnwys Llais y Plentyn, sy'n golygu mai dim ond tri o'r rhestrau gwirio a gwblhawyd yn briodol ar gyfer plant yn y ddalfa.
- Mewn un cofnod â rhestr wirio plentyn yn y ddalfa wedi'i chwblhau, penderfynwyd nad oedd digon o fanylion o ran Llais y Plentyn ar gyfer unigolyn cymhleth â nifer o anghenion yn ymwneud â hunan-niweidio ac iechyd meddwl.

**Blaenoriaethu plant yn y ddalfa**

- Yr amser ar gyfartaledd a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa a chael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd 2 awr ac 14 munud. O'i gymharu ag adroddiad y llynedd, a oedd yn 14 munud, roedd hyn yn gynnydd o 2 awr.

**Cofnodion coll o fewn cofnod y ddalfa**

- Mae nifer o gofnodion y ddalfa yn dangos cofnodion ar goll, gan gynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol yn cyrraedd, cofrestru, ac awdurdodi unigolion a gadwyd yn y ddalfa.

**Asiantaethau allanol**

- Mae anawsterau o ran dod o hyd i oedolyn priodol neu sicrhau llety ar gyfer plant yn y ddalfa wedi'u priodoli i adnoddau prin / diffyg argaeledd y gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i oriau swyddfa.

**Pennu swyddog benywaidd**

- Mewn un cofnod dalfa, roedd gan ringyll y ddalfa gyfiawnhad i bennu ei hun fel y swyddog benywaidd a neilltuwyd i gynorthwyo merched yn y ddalfa; ond ni newidiodd y dyraniad ar ôl newid dwylo.
- Mae cofnod pellach hefyd a ddangosodd nad oedd swyddog benywaidd wedi'i phennu i ferch yn y ddalfa, oherwydd y cyfnod byr y bu'n cael ei chadw yn y ddalfa.
- Mae'r heddlu wedi cydnabod bod hwn yn faes y mae angen ei wella.

**Oedi wrth brosesu plant yn y ddalfa ar gyfer cyfnod yn y ddalfa**

- Roedd un achos lle cafodd adolygiad chwe awr PACE ar gyfer plentyn yn y ddalfa ei ohirio am 1 awr ac 20 munud oherwydd materion gweithredol eraill. Mae'r heddlu wedi cynghori nad oes ganddynt arolygwyr PACE penodedig, a'i bod yn ofynnol iddynt gefnogi ffactorau gweithredol eraill yn eu rhanbarth, gan effeithio felly ar gyfrifoldebau statudol y ddalfa dros unigolion a gedwir yn y ddalfa.
- Efallai bod gwall cofnodi gan aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa wedi cyfrannu at yr amser cadw cyfartalog sy'n uwch na'r hyn a gofnodwyd yn yr adroddiad hwn.

# Sylwadau'r panel

Cynhyrchwyd sylwadau'r heddlu gan Arolygydd Gwasanaethau'r Ddalfa ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

| Thema | Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|---|
| **Rhestr wirio plentyn yn y ddalfa** | O'r 10 cofnod a welwyd, nid oedd gan dri ohonynt restr wirio plentyn yn y ddalfa. O'r saith cofnod â rhestr wirio plentyn yn y ddalfa ynghlwm wrth y cofnodion, nid oedd pedwar yn cynnwys Llais y Plentyn.<br><br>A allwch chi egluro pam y mae cofnodion y ddalfa ar goll o'r rhestr wirio plentyn yn y ddalfa?<br><br>A fydd cwblhau rhestr wirio plentyn yn y ddalfa yn ffocws penodol i'r heddlu yn y dyfodol? | *Mae methu â chwblhau rhestrau gwirio plant yn y ddalfa yn digwydd yn bennaf oherwydd gwall dynol.*<br><br>*Mae cwblhau rhestrau gwirio plant yn y ddalfa wedi bod yn flaenoriaeth i ddalfa Heddlu Dyfed-Powys ers cyfnod hir, a bydd yn parhau i fod yn ffocws craffu wrth symud ymlaen. Er bod y ffocws dros y misoedd blaenorol wedi bod ar wella cydymffurfedd o ran cwblhau'r rhestr wirio, bydd mwy o graffu nawr yn digwydd ynghylch ansawdd y cynnwys sydd ynddynt.*<br><br>*Mae Gwasanaethau'r Ddalfa yn cwblhau archwiliad 100% o blant yn y ddalfa bob mis, ac mae rhan o'r archwiliad hwnnw'n canolbwyntio ar gwblhau rhestr wirio plentyn yn y ddalfa.*<br><br>*Mae cwblhau'r rhestr wirio hefyd bellach yn rhan o gyfarfodydd rheoli dyddiol ar bob uned reoli sylfaenol.*<br><br>*Fel cipolwg, dros y ddau fis diwethaf mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld 55 o blant yn y ddalfa, a dim ond pum rhestr wirio sydd wedi'u methu. Mae hyn yn golygu cydymffurfedd o 90%. Fodd bynnag, disgwyliad Gwasanaethau'r Ddalfa yw y dylai fod 100% o gydymffurfedd bob mis.* |
| **Adolygiad yr arolygydd** | Roedd un cofnod dalfa lle cofnodwyd yr adolygiad dwy awr ddwy awr yn ddiweddarach gan yr arolygydd, a | *Rwyf wedi adolygu cofnod y ddalfa ac mae llinell gyntaf y cofnod 'adolygiad dwy awr' yn nodi, 'Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ac fe'i teipiwyd, ond ni chafodd ei roi ar y cofnod oherwydd digwyddiadau yn adran B a C sy'n* |

| | | |
|---|---|---|
| | darparwyd yr adolygiad 12 awr gan yr arolygydd yn yr adolygiad 15 awr.<br><br>Ar ôl adolygu'r cofnod, a oedd cyfiawnhad dros yr oedi, neu a oes unrhyw ddysgu wedi'i nodi ar gyfer y cofnod cadw hwn? | *mynd rhagddynt". Mae'r llinell gyntaf hon yn tynnu sylw at y rheswm dros yr oedi, sef bod yr arolygydd wedi cynnal yr adolygiad, wedi siarad â swyddogion y ddalfa, ond wedi'i ymrwymo wedyn i ymrwymiadau gweithredol eraill mewn dwy adran arall, sef Sir Benfro a Cheredigion, fel rhan o ddyletswyddau arolygydd efydd.*<br><br>*O ran yr adolygiad 12 awr, ni chwblhawyd hwn fel rhan o adolygiad 15 awr PACE. Cafodd ei fethu. Rhaid cofio bod yr adolygiadau ychwanegol hyn yn rhan o broses beilot y cedwir golwg arni gan Wasanaethau'r Ddalfa, ond nad yw'n cael ei llywodraethu gan PACE. Mae'r prosesau newydd hyn yn parhau i gael eu hadolygu gan Wasanaethau'r Ddalfa a'r prif swyddogion wrth i'r cynllun peilot barhau.*<br><br>*Rwy'n amau ei bod wedi bod yn anodd i aelodau'r panel allu nodi'n gywir y gwahaniaeth rhwng adolygiadau PACE a'r adolygiadau peilot ychwanegol ar ôl cael rhywfaint o arweiniad byr.* |
| **Achos penodol (wedi'i nodi mewn melyn)** | Nid oedd yn ymddangos bod y cofnod hwn wedi cael adolygiad arolygydd dwy awr, ac nid oedd unrhyw esboniad o'r oedi rhwng cyrraedd y ddalfa ac awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa (3 awr a 31 munud).<br><br>Nodwyd hefyd yn yr un cofnod cadw yn y ddalfa mai'r cyfnod hiraf y cymerodd i'r ddalfa gysylltu â'r cyfreithiwr oedd 10 awr ac 13 munud ar ôl cyfnod yn y ddalfa awdurdodedig. A ellir dilysu hyn; ac os felly, a oedd cyfiawnhad dros yr oedi cyn awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa a'r oedi cyn darparu cynrychiolaeth gyfreithiol? | *Cwblhawyd yr adolygiad arolygydd dwy awr ychwanegol, ac y mae wedi'i gofnodi ar ddyddlyfr y ddalfa.*<br><br>*Yr oedi rhwng cyrraedd a'r cyfnod yn y ddalfa a awdurdodwyd oedd 3 awr a 18 munud. Llofnodwyd yr adran 'cofrestru' gan y swyddog dalfa canlynol ar ôl newid dwylo am 12.23am. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chofnod cadw yn y ddalfa sy'n tynnu sylw at y ffaith nad oedd y blwch wedi'i lofnodi trwy gamgymeriad gan swyddog blaenorol y ddalfa. Mae adborth eisoes wedi'i roi i swyddog y ddalfa a anghofiodd lofnodi wrth awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa.*<br><br>*O ran yr oedi cyn cysylltu â chyfreithiwr, gwrthododd yr unigolyn yn y ddalfa gyngor cyfreithiol i ddechrau, yn* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *unol â chofnod y dyddlyfr am 10.08pm, ar ôl iddo gyrraedd y ddalfa. Byddai angen ailystyried yr hawliau hyn ar ôl i'r oedolion priodol gyrraedd, ond bryd hynny roedd yn rhaid parchu dymuniadau'r unigolyn yn y ddalfa. Yna, gwnaeth staff y ddalfa ymdrechion i drefnu presenoldeb oedolyn priodol drwy'r tîm dyletswydd argyfwng (gweithiwr cymdeithasol ar alwad y tîm dyletswydd argyfwng) gan ei fod y tu allan i oriau gwaith. Ni allai'r tîm dyletswydd argyfwng fynd i'r ddalfa oherwydd materion eraill yn mynd rhagddynt, a'r tîm hwnnw oedd yr unig weithiwr cymdeithasol ar alwad yn yr ardal. Golygai hyn fod presenoldeb oedolyn priodol wedi'i ohirio tan oriau swyddfa'r bore canlynol. Unwaith i oedolyn priodol gyrraedd y bore canlynol, ailedrychwyd ar yr hawliau a chwblhawyd cais am gyfreithiwr bryd hynny. Ni ellid bod wedi'i gwblhau yn gynharach o dan yr amgylchiadau.* |
| **Oedolion priodol** | Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd ar gyfer y cyswllt cyntaf rhwng y plentyn yn y ddalfa a'r oedolyn priodol a gofnodwyd oedd 4 awr ac 16 munud. Effeithiwyd ar yr amser cyfartalog gan ddau gofnod a nododd oedi o 11 awr ac 17 awr.<br>Gan ystyried y ddau gofnod hyn, byddai'r amser cyfartalog wedi bod yn 1 awr a 29 munud. O ystyried bod y cyfartaledd ar gyfer adroddiad y llynedd yn 2 awr a 2 funud, a ellid gwella'r oedi ar gyfer y ddau gofnod hwnnw, neu a ydyw hwn yn faes y mae angen i'r heddlu ei flaenoriaethu ar gyfer plant yn y ddalfa yn y dyfodol?<br><br>Roedd tri achos pan na allai Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ganfod y rhesymeg a ddarparwyd dros yr oedi. A ellir cadarnhau | *O ran y cofnod cyntaf – gellid bod wedi gwneud ymdrechion i leihau'r oedi hwn. Mae cofnod y ddalfa yn nodi y byddent wedi cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn y bore i fod yn bresennol fel oedolyn priodol, ond gellid bod wedi gwneud ymdrechion i ofyn i'r tîm dyletswydd argyfwng fod yn bresennol y tu allan i oriau swyddfa gan fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cyrraedd ar ôl hanner nos. Roedd ymddygiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn anrhagweladwy, fel y dangosir yn y cynllun gofal, lle'r oedd hi'n ceisio achosi niwed yn y gell. Fodd bynnag, dylid bod wedi gwneud ymdrechion o hyd i gysylltu ag oedolyn priodol yn gynharach. Nid yw hyn yn ddigwyddiad rheolaidd o ran sicrhau presenoldeb oedolyn priodol ar gyfer plant, ac mae adborth wedi'i ddarparu i'r ddalfa dan sylw yn ystod camau cynnar y cyfnod hwn yn y ddalfa.* |

| | | |
|---|---|---|
| | hyn a rhoi gwybod a oes unrhyw ddysgu wedi'i nodi o'r arsylwi hwn? | *O ran yr ail gofnod, gwnaeth staff y ddalfa bob ymdrech i sicrhau bod oedolyn priodol yn bresennol yn gynnar. Unwaith eto, oherwydd bod y dyfodiad y tu allan i oriau swyddfa, bu'n rhaid cysylltu â'r tîm dyletswydd argyfwng (gweithiwr cymdeithasol ar alwad) i ymweld â'r ddalfa fel oedolyn priodol. Yn anffodus, nid oedd y tîm dyletswydd argyfwng ar alwad yn gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau eraill. Oherwydd hyn, gwnaeth staff y ddalfa wedyn archwilio i gyfeiriad lleoli dros nos ar gyfer yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, a fyddai wedi caniatáu iddo gael ei ryddhau o'r ddalfa ar fechnïaeth. Fodd bynnag, nid oedd gan y tîm dyletswydd argyfwng unrhyw leoliadau addas ar gael ar gyfer plentyn o oedran yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Roedd hyn yn golygu nad oedd oedolyn priodol yn bresennol tan y bore canlynol. Nid oedd hyn o fewn rheolaeth staff y ddalfa.*<br><br>*O ran y trydydd cofnod, mae'r cynllun gofal, adrannau hawliau a hawlogaethau, a sawl cofnod ar gofnod y ddalfa yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa eisiau i'w dad gael gwybod am ei arestio, nac i'w dad weithredu fel ei oedolyn priodol. Nid oedd gan yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gysylltiad â'i dad, ac nid oedd yn byw gydag ef mwyach. Dywedodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei fod wedi defnyddio ei fam-gu o'r blaen, ond ei bod hi wedi symud i'r Eidal. Ni ellid adnabod unrhyw berthnasau eraill ac felly gofynnwyd i'r tîm dyletswydd argyfwng (y gwasanaethau cymdeithasol) gynorthwyo, ond dywedwyd nad oeddent yn gallu bod yn bresennol tan 7.30pm, sy'n egluro'r oedi cyn i'r oedolyn priodol ymweld â'r ddalfa a chyfarfod â'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa.*<br><br>*Mae'r holl achosion hyn yn tynnu sylw at y problemau parhaus a gyflwynir i'r ddalfa wrth geisio cael oedolyn* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *priodol gan yr awdurdod lleol y tu allan i oriau swyddfa. Yn y rhan fwyaf o achosion, yn aml dim ond un gweithiwr cymdeithasol ar alwad sydd ar ddyletswydd yn cwmpasu'r ardal, ac felly nid yw'n gallu ymweld â'r ddalfa yn gorfforol oherwydd ymrwymiadau parhaus eraill fel rhan o'i rôl. Mae hyn yn peri oedi sy'n golygu na fydd yr oedolyn priodol yn bresennol yn y ddalfa tan y bore canlynol, pan fydd oriau swyddfa yn dechrau, ac mae mwy o staff ar gael gan y gwasanaethau cymdeithasol neu dimau troseddwyr ifanc. Mae hyn oherwydd capasiti'r awdurdod lleol, sydd yn gwbl y tu hwnt i reolaeth staff y ddalfa yn Heddlu Dyfed-Powys. Mae mechnïaeth bob amser yn ystyriaeth, ond rhaid ystyried sawl newidyn, megis difrifoldeb y drosedd, diogelu'r sawl sy'n cael ei gadw, ac unrhyw ddioddefwyr / tystion, sicrhau llety amgen addas, ac ati.* |
| **Lefel arsylwi (adolygiad yr arolygydd)** | Nododd aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa y canlynol: *'Mae rhingyll y ddalfa wedi asesu'r lefel fel pedwar arsylwad.' Fodd bynnag, o ran adolygiad yr arolygydd, ymddengys y tybiwyd bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ar Lefel 1. Mae staff y ddalfa yn glir mai Lefel 1 ydyw, a'r gwiriadau hyn wedi'u cynnal gyda'r oedolyn priodol hefyd yn bresennol. Mae'n destun pryder nad yw'r arolygydd wedi edrych ar gofnod y ddalfa cyfan i weld Lefel 4, neu mai dim ond ar lefel feddygol 1 y mae wedi edrych.'*<br><br>Yn yr un cofnod dalfa, mae'r aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa hefyd wedi nodi nad yw'n ymddangos bod llais y plentyn wedi'i gofnodi o fewn rhestr wirio plant yn y ddalfa, ac wedi cwestiynu a | *Mae cofnod y ddalfa wedi'i adolygu, ac ar adeg adolygiadau'r arolygydd, roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn agored i arsylwadau Lefel 1 nid Lefel 4.*<br><br>*Mae'r cynllun gofal a gwblhawyd am 10.16am yn dangos bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn cael ei arsylwi bob 30 munud ar Lefel 1.*<br>*Cwblhawyd yr adolygiad cyntaf gan arolygydd ychwanegol am 10.34am.*<br>*Mae'r cynllun gofal a gwblhawyd am 2.59pm yn dangos bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn cael ei arsylwi bob 30 munud ar Lefel 1.*<br>*Cwblhawyd yr adolygiad PACE cyntaf ar ôl chwe awr am 3.36pm.*<br><br>*Newidiwyd y drefn fel bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn cael ei arsylwi ar Lefel 4 am 3.54pm, ar ôl i adolygiadau'r arolygydd gael eu cwblhau.* |

| | | |
|---|---|---|
| | gymerwyd y datgeliad o hunan-niweidio o ddifrif pan gafodd ei adrodd ar ddau achlysur gan y plentyn yn y ddalfa.<br><br>A allwch chi egluro adolygiad yr arolygydd a gwirio a oes unrhyw beth i'w ddysgu o'r hyn a arsylwyd? | *Efallai bod yr wybodaeth uchod, ynghyd â'r amseriadau, wedi bod yn anodd i aelod y panel ei dynnu o'r fersiwn PDF o gofnod y ddalfa a ddarparwyd.*<br><br>*Mae'r rhesymeg dros y newid yn y lefelau arsylwi wedi'i chynnwys yn y cynllun gofal lle rhoddwyd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn agored i gael ei arsylwi ar Lefel 1 i ddechrau; ond ar ôl cael ei roi yn y gell, gwaethygwyd ymddygiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, a dywedodd fod hyn oherwydd nad oedd gan gelloedd Heddlu Dyfed-Powys ddrysau â ffrynt gwydr fel y rhai yn yr Heddlu Metropolitanaidd. Dywedodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa y byddai'n debygol o niweidio ei hun yn y gell oherwydd hyn. Felly, rhoddwyd ef dan drefn arsylwi Lefel 4.*<br><br>*Mae'r newid hwn o ran lefelau arsylwi yn tynnu sylw at y ffaith bod staff y ddalfa wedi cymryd o ddifrif unigolion yn datgelu eu bod am hunan-niweidio, yn ogystal â'r ffaith bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael ei drefnu i gael ei weld gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ar ddau achlysur. Gwelwyd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gyntaf gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wrth iddo gyrraedd y ddalfa am 9.40am, yn unol â pholisi'r heddlu, ac yna cyn ei ryddhau ar gyfer archwiliad 'addasrwydd i ryddhau' oherwydd y sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod yn y ddalfa ynghylch hunan-niweidio. Sicrhaodd staff y ddalfa hefyd fod y gwasanaethau cymdeithasol a'r Heddlu Metropolitanaidd yn ymwybodol o'r wybodaeth hon cyn ei ryddhau.*<br><br>*Cofnodwyd llais y plentyn ar restr wirio'r plentyn yn y ddalfa fel a ganlyn:* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *'Mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cyflwyno'n dda wrth y ddesg; mae ei ymddangosiad yn normal i unigolyn o'i oedran.*<br>*Mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn siarad yn dda ac yn amlwg yn gallu deall y cwestiynau a ofynnir iddo.*<br>*Mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymddwyn mewn ffordd arferol.*<br>*Mae mam yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymwybodol o'i arestiad, ac y mae'r unigolyn wedi siarad â hi ar y ffôn. Mae hi yn Llundain, felly nid yw'n medru bod yn bresennol.*<br>*Bydd y tîm cyfiawnder ieuenctid lleol yn gweithredu fel oedolyn priodol.*<br>*Nid yw'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn hapus ei fod yng Nghymru, ac y mae'n dweud nad yw'n ddiogel yma.'*<br><br>*Nid wyf yn siŵr a ydyw'r aelod panel wedi camgymryd 'Eiliadau Cyraeddadwy' heb gael ei gwblhau yn hytrach na llais y plentyn. Er na chwblhawyd Eiliadau Cyraeddadwy, bydd hyn yn cael ei gwmpasu'n fuan gan y Prosiect Eiliadau Cyraeddadwy a fydd yn mynd yn fyw yn ardal Heddlu Dyfed-Powys o fewn yr wythnosau nesaf, a bydd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol hyfforddedig addas yn ymweld â'r ddalfa i gefnogi pob plentyn sy'n cael ei gadw yn y ddalfa.* |
| **Achos penodol (wedi'i nodi mewn coch)** | Cafodd plentyn yn y ddalfa ei gadw am 15 awr a 12 munud, a 'dim gweithredu pellach' oedd y dull datrysiad, gyda'r angen i arestio wedi'i nodi fel *'atal niwed corfforol i'w hun neu unigolion eraill'* yn unig.<br><br>Ni neilltuwyd swyddog benywaidd i'r ferch yn y ddalfa; er bod aelod y Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa wedi nodi bod y | *Adolygwyd cofnod y ddalfa, ac mae amgylchiadau'r arestio yn dogfennu bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi'i arestio am ymosodiad cyffredin, yn dilyn nifer o alwadau a wnaed o'i chyfeiriad cartref ynghylch ei hymddygiad ymosodol tuag at ei mam a'i brodyr a'i chwiorydd iau yn y cyfeiriad. Roedd hyn yn cynnwys yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn taflu drôr pren at ei mam. Mae adolygiad o ddigwyddiad yr ymchwiliad yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd unrhyw gyfeiriadau eraill y gellid eu nodi ar gyfer yr unigolyn a gadwyd yn y* |

| | | |
|---|---|---|
| | rhingyll yn y ddalfa yn fenyw. A allwch chi wirio a ydyw'r rhingyll yn y ddalfa wedi penodi ei hun yn swyddog penodedig ar gyfer y plentyn yn y ddalfa; ac os felly, a ydych chi'n ystyried bod hyn yn briodol? Yn ogystal, oherwydd y gwendidau penodedig ynghylch y ferch hon yn y ddalfa, yn enwedig oherwydd ei hoedran ifanc a'i hiechyd meddwl, ac o ystyried y dull datrys, a ydych chi'n ystyried bod ei chadw yn gyfiawn? | *ddalfa, oherwydd ei hymddygiad ymosodol yn y lleoliad, ac nad oedd yn briodol iddi aros yn y cyfeiriad cartref gan ei bod yn peri risg i'w mam a'i brodyr a'i chwiorydd iau. Roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa hefyd wedi hunan-niweidio cyn cael ei harestio, a oedd yn golygu bod yn rhaid ei chludo i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys cyn cyrraedd y ddalfa. Felly, roedd arestio'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa 'i atal niwed corfforol i'w hun neu unigolion eraill', yn ogystal â'i chadw yn y ddalfa, yn gyfiawn.*<br><br>*Adolygwyd cofnod y ddalfa hwn fel rhan o newidiadau i'r broses plant yn y ddalfa, ac ni chafodd ei amlygu gan Wasanaethau'r Ddalfa fel 'cyfle a gollwyd' i atal plentyn rhag dod i'r ddalfa.*<br><br>*Cofnodwyd yr holl wendidau yn ystod yr asesiad risg a'r cynlluniau gofal, yn ogystal â sgwrs â mam yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa i gadarnhau'r holl ddiagnosisau iechyd meddwl a gadarnhawyd. Aseswyd gwendidau gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, gwnaed atgyfeiriadau perthnasol i wasanaethau cymorth, a chwblhawyd y mesurau diogelu.*<br><br>*Mae'r aelod panel wedi cofnodi'n gywir mai'r aelod o staff benywaidd a neilltuwyd oedd y rhingyll a oedd ar ddyletswydd yn y ddalfa. Mae'r cynllun gofal yn nodi bod rhingyll y ddalfa wedi neilltuo ei hun fel y fenyw benodedig ar gyfer yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gan nad oedd unrhyw swyddogion benywaidd eraill ar ddyletswydd yn Sir Benfro. Er y dylai dynodi swyddog y ddalfa fel yr aelod o staff benywaidd fod yn ddewis os bydd popeth arall yn methu, ymddengys mai dyna oedd yr achos hwn, ac ni fyddai wedi bod yn gymesur gofyn i* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *swyddog benywaidd arall o adran / uned reoli sylfaenol arall deithio pellter sylweddol i'r ddalfa at y diben hwn.*<br><br>*Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y swyddog benywaidd a neilltuwyd wedi newid yn ar ôl newid dwylo, ac mae adborth wedi'i ddarparu i swyddog newydd y ddalfa fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd ac adborth.*<br><br>*Ni ddylid defnyddio'r ffaith mai 'dim gweithredu pellach' oedd y canlyniad fel meincnod yn unig i benderfynu a ydyw arestio / cadw yn y ddalfa yn angenrheidiol neu'n gyfiawn. Er y gellir ei ddefnyddio fel dangosydd, dylid ei asesu hefyd ynghyd â chyd-destun y drosedd sy'n cael ei hymchwilio, amgylchiadau'r plentyn, pa opsiynau eraill a archwiliwyd, a'r rhesymau dros wneud y penderfyniad 'dim gweithredu pellach'. Ar yr achlysur hwn, nid oedd y dioddefwr, sef mam yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, yn gefnogol i gŵyn, ac felly nid oedd digon o dystiolaeth i fwrw ymlaen ymhellach.* |
| **Achos penodol (wedi'i nodi mewn coch)** | Cafodd y plentyn ei gadw yn y ddalfa am 16 awr a 35 munud, gyda'r angen i arestio wedi'i nodi fel *'er mwyn atal niwed corfforol i'w hun neu i unigolion eraill'*. Fe'i rhyddhawyd â 'dim gweithredu pellach', a nodwyd gan aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa nad oedd safon y rhestr wirio plentyn yn y ddalfa yn dda, gan nodi:<br>*'Ymddengys bod y person ifanc hwn wedi llithro trwy sawl rhwyd ddiogelwch, ac mae'n achos cymhleth o ran diogelu rhag hunan-niweidio. Roedd y gofal gan staff y ddalfa yn dda, ond roedd prosesau a gwasanaethau eraill wedi ei siomi. Ni allai* | *Adolygwyd cofnod y ddalfa ac mae'r aelod panel yn tynnu sylw'n briodol at hyn fel achos cymhleth, gyda nifer o bryderon o ran diogelu yn ymwneud ag unigolyn yn y ddalfa a oedd yn anodd i staff y ddalfa ei reoli'n ddiogel.*<br><br>*Yn gyntaf, gan ganolbwyntio ar amgylchiadau'r arestio, adroddwyd bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ar goll, a bod pryderon o ran hunan-niweidio / meddyliau yn ymwneud â hunanladdiad. Daethpwyd o hyd i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, a dychwelodd adref i ofal ei mam, ond yna ymosododd ar ei mam tra'r oedd swyddogion yn bresennol. Ni ellid nodi unrhyw gyfeiriadau amgen eraill gan fam yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, na swyddogion yn y lleoliad, ac nid oedd yn briodol caniatáu* |

| | | |
|---|---|---|
| | *hyn fod wedi bod yn ganlyniad cadarnhaol i'r person ifanc hwn a'r awydd i hunan-niweidio a pheidio â chael cefnogaeth oedolyn priodol yn gynnar. Fe wnaeth hi niweidio ei hun yn y ddalfa ac roedd angen rhywfaint o ymyrraeth wrth iddi ymadael. Lle gellid tynnu sylw at y materion hyn, cawsant eu methu yn yr adolygiad o'r archwiliad a'r asesiad iechyd. Mae hi'n agored i niwed, ac yn y pen draw nid oedd unrhyw weithredu pellach, felly gallai hi fod wedi cael ei thrin yn wahanol o'r dechrau. Mae'r rhestr wirio plentyn yn y ddalfa wedi'i chwblhau i safon wael.'*<br><br>Gan gyfeirio at ddefnyddio grym, nodwyd bod adolygiad 12 awr yr arolygydd wedi gwrthod cydnabod bod grym wedi'i ddefnyddio er gwaethaf y ffaith bod gefynnau wedi'u rhoi ar arddyrnau'r plentyn yn y ddalfa fel bod ei breichiau y tu ôl i'w chefn, er ei diogelwch, a nodwyd hynny yn y rhesymeg a ddarparwyd gan ringyll y ddalfa.<br><br>Roedd yr aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa hefyd yn bryderus nad oedd y plentyn yn y ddalfa wedi cael oedolyn priodol yn bresennol yn ystod ei chyfweliad, na thrwy gydol ei chyfnod yn y ddalfa, a'r canfyddiad oedd bod gorffennol y plentyn wedi'i 'ddiystyru'.<br><br>A ydych chi'n gweld tystiolaeth o hyn ac a ydych chi'n credu y gellid bod wedi cynnig | *i'r unigolyn aros yn y cyfeiriad cartref gan y byddai hyn yn peri risg diogelu i'w mam, yn ogystal â hi ei hun, a oedd eisoes wedi'i hadrodd fel unigolyn ar goll. Ar ôl adolygu'r digwyddiad, nid oedd y swyddogion a oedd yn bresennol yn ystyried bod ymddygiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn bodloni'r meini prawf ar gyfer pwerau'r heddlu o dan Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl, ac ar ôl dychwelyd i'r cyfeiriad cartref ni fyddai'r pwerau hyn wedi bod ar gael i swyddogion gan nad yw'r pwerau hyn yn berthnasol i anheddau preifat. Felly, roedd arestio a chadw yn y ddalfa yn gyfiawn. Ni nodwyd hyn fel 'cyfle a gollwyd' yn ystod adolygiadau Gwasanaethau'r Ddalfa o bob plentyn a gadwyd yn y ddalfa.*<br><br>*Ni allaf wneud sylwadau ynghylch 'gwasanaethau eraill a wnaeth ei methu' gan nad yw hyn o fewn rheolaeth staff y ddalfa. Fodd bynnag, o adolygu'r cofnod dalfa hwn, gan gynnwys diweddariadau'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, gwnaed pob ymdrech i ymdrin â gwendidau'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn ystod ei chadw ac ar ôl ei chadw. Mae'r cofnod dalfa yn tynnu sylw at sgwrs rhwng y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a CAMHS, yr oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn ymwneud yn weithredol â nhw ynghylch ei phroblemau iechyd meddwl parhaus, a bod yr unigolyn wedi cael ei gweld gan CAMHS yn gynharach y diwrnod hwnnw, a'i bod yn cael ei hadolygu'n ddyddiol ganddynt.*<br><br>*Rwy'n cytuno nad yw'r rhestr wirio plentyn yn y ddalfa wedi'i chwblhau'n ddigonol a'i bod yn brin o fanylion mewn rhai meysydd, gan gynnwys llais y plentyn, ac mae adborth wedi'i ddarparu i swyddogion y ddalfa dan sylw.* |

| | | |
|---|---|---|
| | mwy o gymorth i'r plentyn hwn? A allwch chi hefyd wirio adolygiad yr arolygydd ynghylch defnyddio grym a chynghori ar unrhyw ddysgu os ystyrir bod hynny'n briodol? | *Nid yw adolygiad 12 awr ychwanegol yr arolygydd yn cynnwys unrhyw ffocws ar ddefnyddio grym. Diben yr adolygiad hwn yw asesu statws yr ymchwiliad, a ydyw'r holl ymholiadau wedi'u cwblhau'n gyflym, ac asesu'r angen i barhau i gadw'r plentyn yn y ddalfa. Mae defnyddio grym yn y ddalfa wedi'i gynnwys yn adolygiadau presennol PACE. Efallai bod y gwahaniaethau rhwng yr adolygiadau peilot ychwanegol ac adolygiadau presennol PACE wedi achosi rhywfaint o ddryswch yma. Mae'r arolygydd yn cydnabod bod grym wedi'i ddefnyddio yn y ddalfa o fewn adolygiad chwe awr PACE, sy'n cofnodi y defnyddiwyd grym mewn ymateb i'r ffaith bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn hunan-niweidio yn y gell; felly roedd angen defnyddio grym i'w hatal rhag achosi anaf iddi hi ei hun.*<br><br>*O ran y sylwadau a wnaed ynghylch darparu oedolyn priodol, roedd gan yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa oedolyn priodol yn bresennol ar gyfer cyfweliad, prosesu, hawliau a hawlogaethau, ac ati. Bu'n rhaid cael oedolyn priodol o'r awdurdod lleol, a chyrhaeddodd y ddalfa am 11.45am. Yn dilyn hyn, cwblhawyd a llofnodwyd hawliau a hawlogaethau gan yr oedolyn priodol am hanner dydd, cwblhawyd y prosesu am 12.19pm, a chwblhawyd y cyfweliad am 12.41pm. Felly, nid wyf yn cytuno â'r sylw bod 'gorffennol y plentyn yn y ddalfa wedi cael ei ddiystyru' gan unrhyw un o staff y ddalfa dan sylw. Nid oes unrhyw dystiolaeth o hyn yng nghofnod y ddalfa.*<br><br>*Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn sylwadau blaenorol uchod, credaf y gellid bod wedi gwneud ymdrechion i leihau'r oedi cyn i'r oedolyn priodol gyrraedd. Mae cofnod y ddalfa yn nodi y byddent wedi cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn y bore i fod yn bresennol* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *fel oedolyn priodol, ond gellid bod wedi gwneud ymdrechion i ofyn i'r tîm dyletswydd argyfwng fod yn bresennol y tu allan i oriau swyddfa gan fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cyrraedd ar ôl hanner nos. Roedd ymddygiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn anrhagweladwy, fel y dangosir yn y cynllun gofal, lle'r oedd hi'n ceisio achosi niwed yn y gell. Fodd bynnag, dylid bod wedi gwneud ymdrechion o hyd i gysylltu ag oedolyn priodol yn gynharach. Fel y nodwyd eisoes, efallai na allai'r tîm dyletswydd argyfwng fod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau eraill, ond nid yw'n ymddangos bod cais wedi'i wneud. Cynhelir trafodaeth ynghylch hyn â swyddog y ddalfa i ganfod unrhyw resymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn, a all gynnwys ymddygiad ymosodol yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn peri risg i unrhyw oedolyn priodol a oedd yn bresennol, a darperir adborth.* |
| **Achos penodol (wedi'i nodi mewn melyn)** | Nid yw'n ymddangos bod y plentyn hwn yn y ddalfa wedi cael cynnig cyfleusterau hylendid er gwaethaf y ffaith ei bod yn y ddalfa am dros naw awr. Nododd yr aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa hefyd y bu oedi o awr a hanner cyn cwblhau'r adolygiad chwe awr, a'r rhesymeg a roddwyd oedd eu bod yn ymwneud â'r sefyllfa ac yn cymryd rhan mewn cyfweliad. A ellir cyfiawnhau hyn, gan mai'r canfyddiad oedd bod yr heddlu i fod i flaenoriaethu plant yn y ddalfa er mwyn lleihau'r amser y mae plant yn cael eu cadw yno?<br><br>Ymddengys bod yr un plentyn wedi cael oediad o dair awr wrth i'r ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol ar ôl i'r cyfnod yn y | *Darperir rhestr o'r cyfleusterau sydd ar gael i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa wrth lofnodi am eu hawliau a'u hawlogaethau. Darparwyd y rhestr hon i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am 8.09pm, yn dilyn dyfodiad yr oedolyn priodol. Mae'r rhestr yn nodi:*<br><br>*'Rwy'n deall y gallaf ofyn os ydw i eisiau unrhyw un o'r canlynol:*<br>• *Pecynnau hylendid (menywod)*<br>• *Bwyd neu ddiod*<br>• *Cyfleusterau ymolchi / cawod*<br>• *Deunydd darllen*<br>• *Ymarfer corff*<br>• *I siarad â rhywun yn breifat am unrhyw faes sy'n peri pryder ynghylch fy iechyd a'm lles.'*<br><br>*Yn fy mhrofiad i, nid yw unigolion a gedwir yn y ddalfa yn defnyddio cyfleusterau ymolchi / cawod yn aml er gwaethaf y ffaith eu bod yn gwybod y gallant eu* |

| | | |
|---|---|---|
| | ddalfa gael ei awdurdodi heb unrhyw reswm wedi'i ddarparu dros yr oedi, nac unrhyw fanylion ynghylch yr oedolyn priodol yn ymweld â'r ddalfa. Yn fwy pryderus oedd ei fod, i bob golwg, wedi cael ei ryddhau tua hanner nos heb drefniadau llety wedi'u gwneud. A ellir gwirio hyn, ac a allwch chi gynghori a oes unrhyw beth i'w ddysgu o'r cofnod dalfa hwn? | *defnyddio ar gais. Ar yr achlysur hwn, cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa am 3pm, a chafodd ei ryddhau ychydig ar ôl hanner nos (ychydig dros naw awr o fod yn y ddalfa). Byddwn i'n dadlau ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi bod eisiau defnyddio cyfleusterau cawod y ddalfa yn ystod yr amser hwn, gan y byddai hyn yn oedi cwblhau prosesau eraill, a byddai wedi ffafrio defnyddio ei gawod ei hun gartref ar ôl cael ei ryddhau.*<br><br>*O ran yr oedi i adolygiad chwe awr PACE, roedd hwn 1 awr ac 20 munud yn hwyr (disgwyliwyd am 10.34pm a chwblhawyd am 11.54pm). Nodaf y sylwadaeth mai'r canfyddiad oedd bod yr heddlu i fod i flaenoriaethu plant yn y ddalfa er mwyn lleihau'r amser y maent yn cael eu cadw yno. Cafodd yr adolygiad ei ohirio i ddechrau gan fod yr arolygydd wedi ymrwymo i fater gweithredol arall ar yr adeg yr oedd yr adolygiad i fod i gael ei gynnal. Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu gydag arolygwyr pwrpasol PACE, ac mae tasgau PACE yn cael eu cwblhau gan arolygwyr 'efydd' sydd hefyd yn goruchwylio pob digwyddiad gweithredol parhaus yn eu huned reoli sylfaenol, yn ogystal ag unedau rheoli sylfaenol eraill, yn dibynnu ar adnoddau. Fodd bynnag, symudwyd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa i ymgynghori â'i gyfreithiwr am 10.14pm, ac felly ni ellid bod wedi cwblhau'r adolygiad erbyn yr amser penodedig. Er mwyn osgoi unrhyw oedi o ran rhyddhau'r plentyn, symudwyd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa i gyfweliad, ac ni ddychwelodd o'r cyfweliad tan 11.56pm. Mae cofnod cadw yn y ddalfa yn tynnu sylw at y ffaith bod sgwrs wedi digwydd rhwng swyddog yn y ddalfa a'r arolygydd a oedd yn aros i gwblhau'r adolygiad, tra bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn cael ei gyf-weld. Er bod adolygiad wyneb yn wyneb yn cael ei ffafrio, a oedd* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *yn rhywbeth yr oedd yr arolygydd yn bwriadu ei gwblhau ar ôl cwblhau'r cyfweliad, barnwyd mai dim ond oedi rhyddhau'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa fyddai hyn yn ei achosi gan fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn cael ei ryddhau ar fechnïaeth yn syth ar ôl y cyfweliad ac na fyddai'n dychwelyd i'r gell. Oherwydd hyn, cwblhawyd adolygiad 'anymwybodol' tra bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn parhau i gael ei gyf-weld er mwyn peidio â gohirio ei ryddhau.*<br><br>*O ran oedi cyn i'r oedolyn priodol gyrraedd, mae'r cynllun gofal, yr adran hawliau a hawlogaethau, a sawl cofnod cadw ar gofnod y ddalfa yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa eisiau rhoi gwybod i'w dad am ei arestio, nac i'w dad weithredu fel ei oedolyn priodol. Nid oedd gan yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gysylltiad â'i dad, ac nid oedd yn byw gydag ef mwyach. Dywedodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei fod wedi defnyddio ei fam-gu o'r blaen, ond ei bod hi wedi symud i'r Eidal. Ni ellid adnabod unrhyw berthnasau eraill ac felly gofynnwyd i'r tîm dyletswydd argyfwng (y gwasanaethau cymdeithasol) gynorthwyo, ond dywedwyd nad oeddent yn gallu bod yn bresennol tan 7.30pm, sy'n egluro'r oedi cyn i'r oedolyn priodol ymweld â'r ddalfa a chyfarfod â'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Cyrhaeddodd yr oedolyn priodol am 7.45pm.*<br><br>O ran 'yn fwy pryderus oedd ei fod, i bob golwg, wedi cael ei ryddhau tua hanner nos heb drefniadau llety wedi'u gwneud', mae cofnodion y cofnod dalfa am 12.15am a 12.16am yn tystio bod staff y ddalfa yn ymwybodol bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn ddigartref, wedi cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ynghylch sefyllfa preswyl yr unigolyn am 5pm wrth ofyn iddynt ddanfon rhywun i fod yn oedolyn priodol, bod yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | oedolyn priodol a oedd yn bresennol o'r awdurdod lleol, a bod yr unigolyn wedi'i ryddhau i ofal yr oedolyn priodol a oedd yn aelod o'r gwasanaethau cymdeithasol ac sydd â chyfrifoldeb statudol i ddod o hyd i lety addas. Nid cyfrifoldeb yr heddlu yw hwn. Nid oedd unrhyw ofyniad i ohirio rhyddhau'r plentyn o'r ddalfa er mwyn dod o hyd i lety. Mae'n amlwg, er gwaethaf cael gwybod am statws preswyl yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am 5pm, nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi gwneud unrhyw ymdrechion i ddod o hyd i lety addas tan adeg rhyddhau'r unigolyn o'r ddalfa. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi gan swyddog y ddalfa a ryddhaodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn dilyn sgwrs â'r gwasanaethau cymdeithasol. Rwy'n cytuno â phenderfyniad swyddog y ddalfa i ryddhau'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, gan atal unrhyw oedi i'w ryddhau, a'i ryddhau i ofal y gwasanaethau cymdeithasol y mae eu dyletswydd statudol wedyn yn cynnwys dod o hyd i lety addas. |
| **Gwasanaethau cyfreithiol** | Nododd y panel ar ddau achlysur nad oedd unrhyw gofnod yn nodi pryd y cyrhaeddodd y cyfreithiwr, neu ei bod yn anodd dod o hyd i fanylion am y cysylltiad hwn. A allwch chi nodi a ydyw hyn yn gywir? | *Mewn perthynas â'r cofnod cadw cyntaf, gofynnwyd am gyfreithiwr ar ddyletswydd gan yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am 2.17pm. Hysbyswyd y ganolfan alwadau gan yr heddlu o'r cais hwn am 2.25pm. Mae'r cofnod cadw yn y ddalfa am 2.58pm yn nodi bod yr oedolyn priodol a'r swyddogion yn barod ar gyfer cyfweliad, ond yn aros i'r cyfreithiwr gyrraedd. Cofnodwyd eu bod wedi newid dwylo am 3.26pm, gan nodi bod yr unigolyn yn dal i aros i'r cyfreithiwr gyrraedd. Nid oedd unrhyw gofnod dalfa yn tynnu sylw at y cyfreithiwr yn cyrraedd cyn i'r unigolyn gael ei symud i'r cyfweliad am 4.09pm. Er fy mod yn siŵr bod y cyfreithiwr wedi cyrraedd i gynrychioli'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, gan y byddai gwrthod cyngor cyfreithiol ar ôl gofyn amdano yn* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *gofyn am awdurdod arolygydd, nid oes cofnod log ac nid yw manylion y cyfreithiwr wedi'u diweddaru o 'cyfreithiwr ar ddyletswydd' yn yr adran hawliau a hawlogaethau i gynnwys enw'r cyfreithiwr ac enw ei gwmni. Mae arsylwad aelod y panel yn gywir, a bydd adborth yn cael ei roi i swyddog y ddalfa.*<br><br>*O ran yr ail gofnod dalfa, mae sylwadaeth yr aelod panel yn gywir unwaith eto. Hysbyswyd y cyfreithiwr am 12.33am, ond nid oes cofnod cyn y cyfweliad ynghylch dyfodiad y cyfreithiwr na'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae'r adran hawliau a hawlogaethau wedi'i diweddaru fel ei bod yn cynnwys enw'r cyfreithiwr ac enw ei gwmni.*<br><br>*Efallai y bydd hyn yn gofyn am gyfathrebu ar draws yr heddlu â holl staff y ddalfa yn eu hatgoffa o bwysigrwydd dogfennu amser cyrraedd cyfreithiwr ac amser trosglwyddo unigolion a gadwyd yn y ddalfa i ymgynghori â chyfreithiwr.* |
| **Merched yn y ddalfa** | Ni ellid cadarnhau a gyflwynodd y swyddog benywaidd a neilltuwyd i'r ferch yn y ddalfa ei hun iddi. A ellir dilysu hyn? | *Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw gofnod yn ymwneud â'r swyddog benywaidd a neilltuwyd yn cyflwyno ei hun i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Ar yr achlysur hwn, dim ond am gyfnod byr iawn y bu'r unigolyn yn y ddalfa cyn cael ei rhyddhau i ofal ei mam a'i mam-gu.*<br><br>*Fodd bynnag, credaf fod hwn yn faes y gellid ei wella'n gyffredinol ar draws yr heddlu, a byddaf yn parhau i'w fonitro yn y misoedd nesaf. Y flaenoriaeth yn ystod y misoedd diwethaf fu gwella cydymffurfedd yn gyntaf o ran neilltuo swyddogion benywaidd cyn pwyso am welliant pellach yn y maes hwn.* |
| **Yr angen i arestio** | Dim ond dau gofnod a nododd yr angen i arestio *'er mwyn cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol'.* Roedd gan y lleill anghenion ychwanegol. Roedd y ddau | *Mewn perthynas â'r cofnod dalfa cyntaf, y drosedd dan ymchwiliad ar y cofnod dalfa hwn oedd gyrru dan ddylanwad alcohol ac felly 'ymchwiliad prydlon ac effeithiol' fyddai'r unig ofyniad Cod G i gael dau* |

| | | |
|---|---|---|
| | gofnod hynny'n nodi bod plant wedi'u cadw yn y ddalfa am 7 awr a 35 munud, ac 20 awr a 24 munud. A allwch chi gynghori a oedd yr angen a bennwyd yn unig yn cyfiawnhau cadw'r plentyn yn y ddalfa? | *sbesimen tystiolaethol o anadl gan ddefnyddio dyfais a gymeradwyir yn y ddalfa. Cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa am 11.26pm, gan ddarparu samplau tystiolaethol positif o'i anadl yn y ddalfa, ac felly roedd angen cyfnod o orffwys arno er mwyn iddo sobri cyn cael ei gyhuddo. Dyma sy'n esbonio pam fod y cyfnod yn y ddalfa yn 7 awr a 35 munud.*<br><br>*Mewn perthynas â'r ail gofnod dalfa, mae gan y cofnod dalfa hwn gyfanswm o bedwar angenrheidrwydd wedi'u rhestru. Y rhain oedd 'ymchwiliad prydlon ac effeithiol, atal unigolyn rhag achosi i eiddo gael ei golli neu ei ddifrodi, atal unigolyn rhag achosi anaf corfforol, gwarchod plentyn neu unigolyn arall sy'n agored i niwed'.*<br><br>*Ar y ddau achlysur roedd cadw yn y ddalfa yn angenrheidiol ac yn gymesur.* |
| **Cyfanswm yr amser yn y ddalfa** | Yr amser ar gyfartaledd a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa a chael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd 2 awr ac 14 munud. O'i gymharu ag adroddiad y llynedd, a oedd yn 14 munud, roedd hyn yn gynnydd o 2 awr.<br><br>12 awr a 29 munud oedd yr oediad hiraf, oherwydd symud plentyn yn y ddalfa o ardal y tu allan i ardal yr heddlu i ardal o fewn cwmpas Heddlu Dyfed-Powys. A allwch chi ddweud a ydoedd yn gymesur i'r plentyn hwn yn y ddalfa wneud y daith hon? | *Rwy'n amau bod y data hyn ynghylch amser cyfartalog yn anghywir, ac efallai y bydd angen eu hailystyried.*<br><br>*Wrth adolygu'r cofnod dalfa cyntaf a restrir, yr amser a gofnodwyd gan yr aelod panel, sef 12 awr a 29 munud, yw'r gwahaniaeth amser rhwng amser yr arestio ac amser cyrraedd y ddalfa, nid amser cyrraedd ac amser y cadw a awdurdodwyd. Arestiwyd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn ardal yr Heddlu Metropolitanaidd am 8.12pm ar 8 Medi 2025, a chyrhaeddodd ddalfa Heddlu Dyfed-Powys am 8.40am ar 9 Medi 2025 (12 awr a 28 munud). Yr amser gwirioneddol a aeth heibio rhwng yr amser cyrraedd (8 awr a 40 munud) a'r amser cadw a awdurdodwyd (9 awr a 2 funud) oedd 22 munud. Bydd y camddehongliad hwn o amseriadau wedi effeithio'n andwyol ar yr amser cyfartalog a gofnodwyd yn yr adroddiad hwn gan fod yr amser a gofnodwyd gan yr* |


| | | |
|---|---|---|
| | Yr ail amser aros uchaf oedd 3 awr a 18 munud, gyda'r aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn methu â phennu sail resymegol dros yr oedi. A allwch chi wirio'r rheswm dros yr oedi a nodi a ydych chi'n credu ei fod yn gyfiawn?<br><br>Yr amser byrraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 1 awr a 49 munud. Yr angen i arestio oedd *er mwyn cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd ac atal niwed corfforol i'w hun neu i unigolion eraill.* A ydych chi'n asesu bod cadw'r plentyn hwn yn y ddalfa (a gafodd ei gadw am lai na dwy awr) yn gymesur ac yn angenrheidiol? | *aelod panel 12 awr a 6 munud yn fwy na'r amser cywir. Nid yw arestio mewn un ardal heddlu a chludo i'r ddalfa mewn ardal heddlu arall yn anghyffredin. Ar yr achlysur hwn, roedd pob un o'r pum trosedd yn ddifrifol eu natur ac wedi'u cyflawni yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Fodd bynnag, roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi symud i Lundain ers hynny ac felly cafodd ei arestio gan yr Heddlu Metropolitanaidd. Ar achlysuron fel hyn, rhaid i'r tîm ymchwilio wneud penderfyniad, gan ystyried anghenion yr ymchwiliad a chloc 24 awr cychwynnol PACE, a dylid teithio allan o ardal yr heddlu i gynnal y cyfweliad neu gludo'r unigolyn i ddalfa Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cael ei gymhlethu gan gymhlethdodau'r ddeddfwriaeth ynghylch cloc PACE, sy'n rhy anodd i'w hesbonio yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rwy'n hapus i drafod ac egluro hyn yn fanylach ag aelodau'r panel yn y panel craffu nesaf.*<br><br>*Mewn perthynas â'r ail gofnod cadw, roedd yr oedi ar yr achlysur hwn yn ganlyniad i wall gweinyddol gan swyddog yn y ddalfa, a oedd wedi cofrestru'r unigolyn yn y ddalfa. Yr oedi rhwng cyrraedd a'r cyfnod yn y ddalfa a awdurdodwyd oedd 3 awr a 18 munud. Llofnodwyd yr adran 'cofrestru' gan y swyddog dalfa canlynol ar ôl newid dwylo am 12.23am. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chofnod cadw yn y ddalfa sy'n tynnu sylw at y ffaith nad oedd y blwch wedi'i lofnodi trwy gamgymeriad gan swyddog blaenorol y ddalfa. Mae adborth eisoes wedi'i roi i swyddog y ddalfa a anghofiodd lofnodi wrth awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa.*<br><br>*Mewn perthynas â'r trydydd cofnod dalfa hwn, rwyf wedi gwirio'r cofnod dalfa hwn, a chafodd yr unigolyn ei gadw am 16 awr a 39 munud gyda chyfanswm o dri angenrheidrwydd wedi'u rhestru, sef 'ymchwiliad prydlon* |


| | | |
|---|---|---|
| | | *ac effeithiol, atal yr unigolyn rhag dioddef anaf corfforol, ac amddiffyn plentyn neu unigolyn arall sy'n agored i niwed'. Ymddengys mai gwall cofnodi gan yr aelod panel yw hwn. Rwyf wedi gwirio am unrhyw ddigwyddiadau ychwanegol a allai fod wedi achosi dryswch, megis yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn dychwelyd ar fechnïaeth yn ddiweddarach, ond cafodd yr unigolyn ei ryddhau heb gymorth ariannol ar ddiwedd y cyfnod yn y ddalfa. Mewn gwirionedd, gallai'r gwall hwn wrth gofnodi olygu bod yr amser cadw cyfartalog yn uwch na'r hyn a gofnodwyd.* |


# Atodiad – Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion y Ddalfa

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel, a ddadansoddwyd i nodi'r agweddau cadarnhaol a'r meysydd y mae angen eu gwella ym mhob maes penodol o'r ddalfa, gyda ffocws ar y plentyn a gadwyd yn y ddalfa. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn ychwanegol i roi cyd-destun i'r adrannau *Crynodeb o'r canfyddiadau* a *Sylwadau'r panel* uchod.

## Demograffeg









- Gwyn Prydeinig oedd yr ethnigrwydd a gofnodwyd ar gyfer yr holl gofnodion a welwyd ar gyfer yr hapsamplu hwn.

# Dalfeydd






# Amser cyrraedd y ddalfa




**Yr amser a aeth heibio rhwng cyrraedd a chael awdurdod i'w gadw yn y ddalfa**

- Yr amser ar gyfartaledd a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa a chael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd 2 awr ac 14 munud.
- Yr amser aros hiraf oedd 3 awr a 18 munud, ac nid oedd yr aelod panel yn gallu pennu rheswm dros yr oedi.
- Yr amser cyflymaf i unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd 4 munud.








**Cyfanswm yr amser yn y ddalfa**


- Yr amser cyfartalog y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 4 awr a 41 munud.
- Yr amser hiraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 1 diwrnod a 24 munud.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 1 awr a 49 munud.


- Gofynnwyd i'r panel benderfynu a oedd angen yr arestio. Dyma'r rhestr o anghenion o dan PACE:
  - Er mwyn canfod enw neu gyfeiriad person
  - Er mwyn atal niwed corfforol iddynt eu hunain neu i eraill
  - Er mwyn atal colli neu ddifrodi eiddo
  - Er mwyn atal trosedd yn erbyn gwedduster cyhoeddus
  - Er mwyn gwarchod plentyn neu unigolyn bregus
  - Os oes rhwystr anghyfreithlon i'r briffordd
  - Er mwyn cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd
  - Er mwyn atal ymchwiliad i drosedd neu erlyniad yr unigolyn dan amheuaeth rhag cael ei rwystro
- Yr angen amlycaf i arestio a nodwyd oedd *'cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd, ac yna atal colled neu ddifrod i eiddo'.*
- Dau gofnod yn unig a nododd mai'r unig reswm dros arestio oedd i *gynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol.* Nodwyd rhesymau ychwanegol yn y cofnodion eraill. Roedd y ddau hynny yn y ddalfa am 7 awr 35 munud, ac 20 awr a 24 munud.

# Darpariaethau yn y ddalfa





- O adroddiad blaenorol Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ar ddefnyddio grym, atgoffwyd y panel nad yw crefydd ar hyn o bryd yn rhan o'r cwestiwn asesu risg a osodwyd ers cyflwyno Niche, ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid yn y dyfodol agos, sydd y tu allan i ymreolaeth Heddlu Dyfed-Powys. Nid yw'n faes gorfodol y mae angen ei gwblhau ychwaith, sy'n golygu y gellir ei fethu ar adegau. Mae crefydd bellach wedi'i chynnwys yn adran enw a gwybodaeth yr unigolion a gedwir yn y ddalfa ar gofnod y ddalfa. Felly, i gywiro hyn, mae aelodau Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn ymgynghori â'r arolygydd yn y cyfarfod, sydd â mynediad at gofnod dalfa llawn Niche, i ddilysu a ydyw wedi'i nodi.











- Ni enwyd yr unigolyn na chafodd gynnig bwyd na lluniaeth, ac na ofynnwyd iddo a oedd ganddo unrhyw ofynion o ran deiet, yn y cofnod dalfa oherwydd bod ei gyfnod yn y ddalfa wedi para llai na dwy awr.
- Nid yw Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa dal heb ddod o hyd i unrhyw gofnod sy’n manylu ar bicselu toiled na manylion lle mae unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu cyfarwyddo ynghylch sut i ddefnyddio cloch cell yn y cofnodion y maent yn craffu arnynt.


# Unigolion benywaidd a gadwyd yn y ddalfa








- Gofynnwyd i'r tair menyw a gadwyd yn y ddalfa a hoffent siarad â rhywun o'r un rhyw, a chynigiwyd cynhyrchion mislif iddynt i gyd.

# Hylendid





- Nodwyd nad oedd y ferch unigol a gadwyd yn y ddalfa yn gymwys i gael cynnig cyfleusterau hylendid gan mai dim ond llai na dwy awr y bu yn y ddalfa.




- Nid yw'n glir pam na chynigiwyd cyfleusterau hylendid i un dyn. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu yn *Sylwadau'r Panel* er eglurder.
- Ni ystyriwyd bod un plentyn a gadwyd yn y ddalfa yn berthnasol gan ei fod yn teithio o ardal heddlu arall i gael ei gymryd i ddalfa Heddlu Dyfed-Powys.
- Nid yw'n glir pam y dewiswyd 'amherthnasol' ychwanegol gan yr aelod o Banel Craffu Annibynnol y

# Hawliau a hawlogaethau





- Rhoddwyd pob hawl i blant yn y ddalfa naill ai wrth gofrestru neu yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod yr oeddent yn y ddalfa.


**Pa mor hir, ar ôl cael ei gadw yn y ddalfa, y gofynnodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am gyfreithiwr?**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 1 awr a 57 munud.
- Mewn un cofnod yn unig o’r 10 cofnod, gwrthododd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yr opsiwn i ofyn am gyfreithiwr.
- Y cyfnod hiraf cyn i unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 10 awr ac 13 munud.
- Mewn cyferbyniad, y byrraf oedd yn syth ar ôl awdurdodi cadw’r unigolyn yn y ddalfa.

**Yr amser a gymerwyd i’r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**


- Yr amser cyfartalog a gymerwyd i’r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd 1 awr a 49 munud.
- Y cyfnod hiraf o amser oedd 10 awr a 36 munud.
- Y cyfnod byrraf oedd 8 munud.




**Yr amser a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd o'r pwynt cysylltu**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd ar ôl cael cais oedd 4 awr a 7 munud.
- Nododd y panel ar ddau achlysur nad oedd unrhyw gofnod yn nodi pryd y cyrhaeddodd y cyfreithiwr, neu ei bod yn anodd dod o hyd i fanylion am y cysylltiad hwn.
- Cyfarfu pob un o'r chwe phlentyn a gadwyd yn y ddalfa â chyfreithiwr wyneb yn wyneb.
- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol ar yr oedi cyn i'r cyfreithiwr weld y plentyn yn y ddalfa, fel y cofnodwyd yng nghofnod y ddalfa:
    1) Gellid bod wedi priodoli'r oedi i ddiffyg argaeledd oedolyn priodol.
    2) Ar ddau achlysur cyfeiriodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa at y ffaith, ar ôl cysylltu â'r cyfreithiwr, nad oedd unrhyw gofnod ohono yn cyrraedd y ddalfa.




- Gofynnwyd i'r panel nodi'r dull gwaredu er mwyn asesu a oedd cadw'r unigolyn yn y ddalfa yn gymesur â'r angen i'w arestio.
- Y dull gwaredu amlaf oedd mechnïaeth amodol, sef y broses sy'n caniatáu i swyddogion atodi amodau i fechnïaeth a all gynorthwyo dioddefwyr a/neu dystion, cadw tystiolaeth, a lliniaru troseddau pellach rhag cael eu cyflawni.
- O'r ddau gofnod â dull gwaredu wedi'i nodi fel 'dim gweithredu pellach', cawsant eu cadw am 15 awr a 12 munud ac 16 awr a 35 munud, gyda'r angenrheidrwydd arestio wedi'i bennu ar gyfer y ddau ohonynt *'er mwyn atal colli neu ddifrodi eiddo'*; a'r llall *'er mwyn atal niwed corfforol iddo'i hun neu i eraill'*.

# Lefel arsylwi





- Roedd lefel arsylwi wedi'i gosod ar bob cofnod dalfa a adolygwyd.
- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
- Lefel 1 – cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)
- Lefel 2 – ysbeidiol (bob 30 munud)
- Lefel 3 – cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
- Lefel 4 – yn gorfforol agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos)

- O'r cofnodion unigol yr ystyriwyd eu bod yn amherthnasol, roedd hyn oherwydd bod y plentyn yn y ddalfa wedi'i gadw am lai na dwy awr.





A lynwyd at hyn?




- Ni allai dau aelod o'r panel ddod o hyd i fanylion yn nodi a oedd angen deffro'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn gyson. Yn nalfa'r heddlu, mae gwiriadau deffro yn orfodol ar gyfer carcharorion sydd dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, a dim ond i garcharorion sydd yn destun i arsylwadau Lefel 2 y mae'n berthnasol.
- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â'r lefelau arsylwi:
  1) *'Mae rhingyll y ddalfa wedi asesu mai Lefel 4 sy'n briodol ar gyfer arsylwadau. Fodd bynnag, yn ôl adolygiad yr arolygydd, ymddengys y tybiwyd bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ar Lefel 1. Mae staff y ddalfa yn glir mai Lefel 4 ydyw, ac maent yn cynnal y gwiriadau hyn gyda'r oedolyn priodol hefyd yn bresennol. Mae'n destun pryder nad yw'r arolygydd wedi edrych ar y cofnod dalfa cyfan i weld Lefel 4, neu dim ond wedi edrych ar lefel feddygol 1.Mae rhingyll y ddalfa wedi ei gwneud yn glir o gyrraedd Lefel 4 y ddalfa. Yn dilyn adolygiad yr arolygydd, mae'n parhau i fod ar Lefel 4. Dim tystiolaeth o unrhyw newid.'*
  2) *'Gosodwyd y lefel arsylwi ar Lefel 4 nes bod noeth-chwiliad wedi'i gynnal, yna gostyngwyd hi i Lefel 1, ac mae'n ymddangos ei bod wedi cael ei dilyn.'*
  3) *'Roedd y lefel yn ddynamig, a rhoddwyd rhyw reswm bob tro dros y ffaith ei bod yn ddynamig.'*


# Gwasanaethau cymorth





- Nododd aelodau'r panel, o fewn tri chofnod, fod y plentyn yn y ddalfa wedi gwrthod yr opsiwn o gael gwasanaethau cymorth.
- Pwysleisiodd aelodau Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa mai'r prif wasanaeth a gynigiwyd i'r plentyn yn y ddalfa oedd gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â llety, iechyd meddwl, ac at ddibenion diogelu.

# Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol




- Cadarnhaodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod pob plentyn yn y ddalfa wedi gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.
- Nododd y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â darpariaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol:
  1) Holodd un aelod a gymerwyd y datgeliad o hunan-niweidio o ddifrif pan gafodd ei adrodd ar ddau achlysur gan y plentyn yn y ddalfa.
  2) *'Dangosodd y dystiolaeth bod y datgeliad wedi cael ei ddiystyru yn y ddalfa, ond oherwydd ei ffordd o fyw gythryblus, mae'n debyg iddi gael ei methu yn y gymuned gan wasanaethau, a'r ddalfa felly oedd y dewis olaf. Ni fu'r cyfnod hwn yn y ddalfa o fudd i'r unigolyn ifanc hwn. Defnyddiwyd y matrics difrifoldeb ar gyfer plant, a phenderfynwyd peidio â chymryd camau pellach.Roedd hi'n risg iddi hi ei hun, ond nid y ddalfa oedd y lle iawn i'w chadw. Mae angen mwy o wasanaethau cymunedol ar gyfer y fenyw ifanc hon'.*

## Dillad risg arbennig / ystafelloedd gwrth-rwygo


- Nid oedd unrhyw achosion o'r plentyn yn y ddalfa yn gwisgo dillad risg arbennig. Mae hyn oherwydd bod Heddlu Dyfed-Powys wedi penderfynu cael gwared ar ddillad risg arbennig ym mis Mai 2025.
- Ni thynnwyd y dillad trwy rym mewn unrhyw achos.

# Defnyddio grym





- O ran yr unig gofnod dalfa, defnyddiwyd grym yn y broses o roi gefynnau ar yr unigolyn. Roedd yr aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn ystyried bod hwn yn fesur priodol oherwydd ymdrechion y plentyn yn y ddalfa i hunan-niweidio, ynghyd ag arsylwadau Lefel 4 i sicrhau diogelwch y plentyn. Ni chafodd y plentyn yn y ddalfa na'r staff dan sylw unrhyw anafiadau.
- Yr unig bryder sy'n ymwneud â'r cofnod hwn yw'r un a nodir gan yr aelod panel isod:
  *'Mae pryder nad oedd adolygiad yr arolygydd yn cyfeirio at ddefnyddio grym yn y ddalfa, ac mewn adolygiad ar ôl 12 awr, dywedodd nad oedd unrhyw rym wedi'i ddefnyddio. Defnyddiwyd grym yn y gell wrth roi gefynnau ar arddyrnau'r fenyw ifanc y tu ôl i'w chefn ar Lefel 4. Dylid wedi nodi hyn yn yr adolygiad. Nid oedd gan yr unigolyn ifanc oedolyn priodol drwy gydol y cyfweliad, ac nid oedd ganddi unrhyw unigolyn annibynnol yn y celloedd gyda hi.*

# Noeth-chwiliad





- O’r unig gofnod a gofnododd noeth-chwiliad mewn perthynas â phlentyn yn y ddalfa, nododd yr aelod panel fod oedolyn priodol yn bresennol yn ystod y broses.
- Nodwyd bod y camera cylch cyfyng yn recordio ond bod y camera wedi’i diffodd er mwyn sicrhau urddas yr unigolyn yn ystod y chwiliad.


# Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd




- Nododd y panel y rhesymau canlynol, heblaw'r ffaith ei bod yn blentyn, pam fod y plentyn yn y ddalfa yn fwy bregus:
  - Tri mynegiant o niwroamrywiaeth.
  - Yn ddigartref.
  - Dau achos o hunan-niweidio a risg o hunanladdiad.
  - Syndrom alcohol y ffetws.
  - Dau achos o broblemau iechyd meddwl, gan gynnwys iselder ac anhwylder straen ôl-drawmatig.
- Ym mhob cofnod a adolygwyd, nododd yr heddlu fod angen oedolyn priodol, a chysylltwyd â phob unigolyn a enwebwyd.
- Yr amser cyfartalog a gymerwyd i'r heddlu gysylltu ag oedolyn priodol oedd 2 awr a 35 munud.
- Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd ar gyfer y cyswllt cyntaf rhwng y plentyn yn y ddalfa a'r oedolyn priodol oedd 4 awr ac 16 munud. Mewn tri achos, ni ddarparwyd unrhyw reswm dros yr oedi.
- Nododd y panel dri achos lle'r oedd yr oedi ar gyfer oedolyn priodol oherwydd nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol


# Plant yn y Ddalfa




















A gynhaliwyd y trydydd adolgyiad gan arolygydd (cloc 12 awr PACE ar gyfer plant)?





A gyhuddwyd y plentyn?




A gafodd y person ifanc ei ddal dros nos?




A geisiwyd lleoliad gofal gwahanol?





- Roedd un cofnod dalfa lle cofnodwyd yr adolygiad dwy awr ddwy awr yn ddiweddarach gan yr arolygydd, a darparwyd yr adolygiad 12 awr gan yr arolygydd yn yr adolygiad 15 awr.
- O'r tri chofnod hynny lle na cheisiwyd llety amgen, mewn dau achos, roedd hyn oherwydd yr amser o'r dydd y cafodd y plentyn ei gadw yn y ddalfa (wedi'i gadw trwy gydol y dydd), a chafodd yr olaf ei gadw am 4 awr.
- Roedd gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa y sylwadau canlynol mewn perthynas â rhestr wirio plentyn yn y ddalfa:
  - *'Rwy'n pryderu bod plentyn i bob golwg wedi cael ei ryddhau tua hanner nos heb unrhyw lety amlwg.'*
  - Roedd pedwar cyfeiriad yn nodi nad oeddent yn gallu gweld bod Llais y Plentyn wedi'i fynegi.
  - Mae rhingyll o'r ddalfa wedi cofnodi llawer o wybodaeth ar y rhestr wirio plentyn yn y ddalfa, ac mae'n ymddangos ei fod wedi cymryd amser i egluro materion i'r plentyn, ac i annog unigolion i beidio â chamddefnyddio alcohol ymhellach.

## Coch Melyn Gwyrdd

Ar ddiwedd pob cofnod dalfa a adolygwyd, gofynnwyd i'r panel adolygu'r meini prawf isod ac asesu eu graddfa gyffredinol o gofnod dalfa gan ddefnyddio'r sgôr Coch Melyn Gwyrdd:

| Enghreifftiau o reswm dros raddio | Camau gweithredu dilynol |
|---|---|
| **Rhesymeg lawn wedi'i rhoi dros ddefnyddio grym, noeth-chwiliad, neu ar gyfer unrhyw oedi gan asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r sawl a gadwyd yn y ddalfa mewn modd cyfiawn a chymesur.** | **Dim camau pellach ar hyn o bryd.** |
| **Mae pob hawl a hawlogaeth wedi'u rhoi i'r sawl a gadwyd yn y ddalfa.** | |
| **Defnyddiwyd dulliau dad-waethygu clir, eitemau tynnu sylw ac ati i liniaru risg yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa rhag hunan-niweidio bwriadol.** | |
| **Cyfiawnhad prin neu aneglur dros ddefnyddio'r dillad gwrth-niwed, defnyddio grym neu noeth-chwiliad.** | **Cyngor / hyfforddiant pellach i staff y ddalfa.** |
| **Dim digon o wybodaeth i benderfynu ar unrhyw oedi cyn i'r sawl a gadwyd yn y ddalfa gael ei hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol neu oedolyn priodol.** | |
| **Cofnodi hawliau a hawlogaethau mewn modd anghyson.** | |
| **Nid oes unrhyw resymeg neu nid yw'r cyfiawnhad yn gymesur.** | **Mae angen archwiliad pellach mewn perthynas â'r diffyg rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa.** |
| **Penderfyniadau wedi'u gwneud heb wybodaeth am risg, a heb unrhyw resymeg arall.** | |
| **Oedi sylweddol wrth i'r sawl a gadwyd yn y ddalfa weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, defnyddio gwasanaethau cyfreithiol, neu oedolyn priodol.** | |
| **Dim ystyriaeth amlwg i fregusrwydd y sawl a gadwyd yn y ddalfa.** | |




Y rhesymeg a neilltuwyd i bob gradd lliw oedd asesiad / barn aelodau unigol y panel o gofnod y ddalfa y cawsant eu neilltuo iddo. Isod mae peth o'r rhesymeg a ddarparwyd gan y panel ar gyfer eu graddio:

| Gwyrdd | Melyn | Coch |
|---|---|---|
| *'Yn y ddalfa am yr amser byrraf posibl. Y fam oedd yr oedolyn priodol. Roedd yr adolygiadau ar amser'.* | *'Mae'r cofnod cyffredinol yn dangos gofal da o'r plentyn hwn tra'r oedd yn y ddalfa. Yr unig broblem yw na chynhaliwyd adolygiad chwe awr ar amser, a'i fod awr a hanner yn hwyr. Rhoddwyd y rhesymeg bod yr adolygiad wedi'i ohirio oherwydd ymrwymiadau sylweddol yn y ddalfa, a bod mater arall i ymdrin ag ef cyn y cyfweliad. Roeddwn i o dan yr argraff y byddai plant yn y ddalfa yn cael blaenoriaeth.'* | *'Ymddengys bod y person ifanc hwn wedi llithro trwy sawl rhwyd ddiogelwch, ac mae'n achos cymhleth o ran diogelu rhag hunan-niweidio. Roedd y gofal gan staff y ddalfa yn dda, ond roedd prosesau a gwasanaethau eraill wedi ei siomi. Ni allai hyn fod wedi bod yn ganlyniad cadarnhaol i'r person ifanc hwn a'r awydd i hunan-niweidio a pheidio â chael cefnogaeth oedolyn priodol yn gynnar. Fe wnaeth hi niweidio ei hun yn y ddalfa ac roedd angen rhywfaint o ymyrraeth wrth iddi ymadael. Lle gellid tynnu sylw at y materion hyn, cawsant eu methu yn yr adolygiad o'r archwiliad a'r asesiad iechyd. Mae hi'n agored i niwed, ac yn y pen draw nid oedd unrhyw weithredu pellach, felly gallai hi fod wedi cael ei* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *thrin yn wahanol o'r dechrau. Mae'r rhestr wirio plentyn yn y ddalfa wedi'i chwblhau i safon wael.'* |
| *'Arhosodd yn y ddalfa am gyfnod byr o amser, a helpwyd hi i ymadael cyn gynted â phosibl. Efallai bod rhywfaint o dystiolaeth gliriach bod y rhestr wirio wedi'i defnyddio, ond bod yr wybodaeth yn y cynllun gofal yn drylwyr.'* | *'Nid oedd unrhyw esboniad o'r oedi rhwng cyrraedd y ddalfa ac awdurdodi cadw'r unigolyn yn y ddalfa (3 awr a 31 munud)'.* | *'Rwy'n teimlo y dylai swyddog benywaidd fod wedi'i neilltuo ar gyfer y plentyn hwn. Roedd hi'n arbennig o agored i niwed.'* |
| *'Cafodd y plentyn ei drin yn briodol. Roedd angen arestio i atal niwed i eraill, ond nid oedd angen parhau i gadw'r unigolyn yn y ddalfa, a rhyddhawyd y plentyn yn destun ymchwiliad.'* | *'Pryder am y sgôr Lefel 4, ond roedd yr arolygydd o'r farn ei fod yn Lefel 1.'Dryswch a allai gael goblygiadau. Hefyd, a ystyriwyd bod hunan-niweidio yn ddigon difrifol fel yr hunan-adroddwyd gan yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa'.* | |